# Ymgynghoriad ardrefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ebrill 2014

## Y Bwrdd Taliadau

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Sefydlwyd y Bwrdd gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 ), a gafodd Gymeradwyaeth Frenhinol ar 22 Gorffennaf 2010.

## Aelodau'r Bwrdd

**Sandy Blair CBE (Cadeirydd)**
**Mary Carter**
**Stuart Castledine**
**Yr Athro Monojit Chatterji**

## Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd

**Gareth Price**, Clerc
**Dan Collier**, Dirprwy Glerc

Gellir gweld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org
Gellir cael copïau o'r adroddiad hwn hefyd ar ffurfiau hygyrch yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain neu gopïau caled gan:

Clerc y Bwrdd Taliadau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8566
Ffacs: 029 2089 8117
E-bost: Taliadau@cymru.gov.uk

# Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Ymgynghoriad ar drefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol

# Ebrill 2014

## Rhagair y Cadeirydd

Ein rôl ni fel Bwrdd Taliadau Annibynnol Cynullid Cenedlaethol Cymru yw sefydlu system daliadau a chymorth ariannol sy'n galluogi Aelodau'r Cynulliad i gyflawni eu dyletswyddau.

Ym mis Medi 2012, cyhoeddwyd ein *Adolygiad o Bensiynau Aelodau'r Cynulliad – Materion a Dewisiadau,* a oedd yn ceisio barn ynghylch cynllun pensiwn y Cynulliad ac yn amlinellu ein bwriad i ddod i benderfyniad terfynol ar drefniadau pensiwn yr Aelodau yn 2014. Mae'r Bwrdd wedi defnyddio'r adborth ar yr adolygiad hwnnw i lywio ei ystyriaethau o drefniadau pensiwn addas ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn y Pumed Cynulliad.

Rhwng nawr a chyhoeddi'r Penderfyniad terfynol ym mis Mai 2015, byddwn yn ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad ar bob agwedd ar eu taliadau. Dyma'r rhan gyntaf o ymgynghoriad dwy ran penodol ar bensiynau, ond yng nghyd-destun taliadau ehangach sy'n ceisio eich barn i'n cynorthwyo i ddylunio cynllun pensiwn modern sy'n unol ag arfer gorau:

- Cam 1: Ymgynghoriad lefel uchel sy'n cynnwys cwestiynau am rai cynigion ac sy'n rhoi amlinelliad bras o'r math o gynllun a allai gael ei gyflwyno; a
- Cam 2: Yn dilyn dadansoddiad o ymatebion i ymgynghoriad cam 1, byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus manwl ar gynllun pensiwn arfaethedig.

Er mwyn paratoi at gamau nesaf ein harchwiliad o'r pecyn llawn o daliadau ar gyfer y Pumed Cynulliad, rydym wedi cynnal trafodaethau rheolaidd â nifer o randdeiliaid a byddwn yn parhau i ymgysylltu â chi hyd at gyhoeddi'r Penderfyniad terfynol. Mae'r cynllun pensiwn yn rhan allweddol o'r pecyn taliadau ac rydym yn benderfynol o sichrau bod y trefniadau ariannol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn dryloyw ac yn esiampl o arfer da. Er mwyn ein cynorthwyo i wneud penderfyniadau cadarn, rydym wedi comisiynu cyngor cyfreithiol proffesiynol annibynnol ar bensiynau gan Wragge & Co a chyngor actiwaraidd gan PwC. Rydym hefyd wedi monitro datblygiadau mewn deddfwrfeydd eraill a'r amgylchedd pensiynau ehangach wrth lunio'r cynigion yn y ddogfen hon.

Nid ydym wedi cytuno ar unrhyw gasgliadau terfynol ynghylch canlyniad ein hadolygiad a byddwn yn cymryd rhan yn y gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd a'r rhai y bydd ein penderfyniadau yn effeithio arnynt, pan fyddwn yn llunio ein cynigion. Rydym yn glir, fodd

bynnag, y dylai'r trefniadau pensiwn a gaiff eu llunio gennym fod yn deg, yn fforddiadwy yn yr hirdymor ac yn sicrhau buddion ymddeoliad priodol i Aelodau'r Cynulliad. Bydd ein penderfyniadau yn ystyried tueddiadau pensiwn sy'n effeithio ar bobl Cymru.

**Mae'r papur ymgynghori hwn, sy'n cynnwys crynodeb o'n cynigion, yn eich gwahodd i gyflwyno eich barn er mwyn llywio ein trafodaethau.** Bydd y dystiolaeth a gesglir o'r ymgynghoriad hyn yn cael ei hystyried yn ofalus iawn gan y Bwrdd. Felly, rydym yn annog Aelodau'r Cynulliad, aelodau o Gynllun Pensiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a phob rhanddeiliad arall, i ymgysylltu â ni. Daw'r ymgynghoriad i ben **ddydd Mercher 21 Mai 2014.** Dylid anfon ymatebion at Glerc y Bwrdd Taliadau, ac mae ei fanylion cyswllt i'w cael y tu mewn i glawr y ddogfen hon.

Gobeithio y byddwch yn manteisio ar y cyfle i gyfrannu at ein hadolygiad.

**Sandy Blair CBE**



**Cadeirydd / Chair**

**Y Bwrdd Taliadau / Remuneration Board**

## Ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Isod mae crynodeb o'n cynigion. Gwahoddir sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd ac aelodau o Gynllun Pensiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cynigion yn y ddogfen hon. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad manylach ar y cynllun ym mis Gorffennaf 2014. Anelir yr ymgynghoriad nesaf at aelodau'r cynllun presennol y bydd unrhyw newidiadau a gyflwynir gennym yn effeithio arnynt.

Byddwn yn llunio ein cynigion terfynol erbyn mis Mai 2015, sef blwyddyn cyn etholiad nesaf y Cynulliad. Bydd trefniadau pensiwn newydd yn eu lle o ddechrau'r Cynulliad nesaf ym mis Mai 2016.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 21 Mai 2014.

Dylid anfon ymatebion at Glerc y Bwrdd Taliadau: taliadau@cymru.gov.uk

## Crynodeb o'r cwestiynau

### Dyraniad Cost

*Cwestiwn 1*

***A ddylai'r cynllun ailbrisio enillion arfaethedig newydd i Aelodau'r Cynulliad ddilyn trywydd cynlluniau eraill yn y sector cyhoeddus, gydag Aelodau'r Cynulliad yn talu cyfran uwch o'r gost na'r drefn bresennol?***

*Cwestiwn 2*

***Faint y dylai'r Comisiwn gyfrannu at gynllun pensiwn Aelod fel canran o gyfanswm taliadau'r Aelod?***

*Cwestiwn 3*

***Sut rydych chi'n credu y dylid rhannu cost gyffredinol y cynllun ailbrisio enillion newydd rhwng Comisiwn y Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad?***

### Cyfraddau croniadau ac ailbrisio

*Cwestiwn 4*

***Beth yw eich barn chi ar y cynnig y dylai'r cynllun pensiwn ailbrisio enillion newydd gael un gyfradd groniadau ar gyfer holl Aelodau'r Cynulliad?***

## Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol

*Cwestiwn 5*

*A ddylem ganiatau Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol i'r cynllun newydd?*

## Buddiannau ar adeg marwolaeth mewn swydd

*Cwestiwn 6:*

*Yn eich barn chi, beth yw'r gyfradd briodol o ran buddiannau marwolaeth mewn swydd fel lluosiad o gyflog sylfaenol (a, lle y bo'n berthnasol, cyflogau Deiliaid Swyddi ychwanegol) y dylid ei chynnwys yng nghynllun pensiwn ailbrisio enillion Aelodau'r Cynulliad?*

*Cwestiwn 7*

*A ddylai'r oedran ymddeol arferol fod yn 'derfyn' ar gyfer bod yn gymwys i gael buddiannau marowlaeth mewn swydd? Os felly, pa fath o dapro ddylid ei ddarparu ar gyfer aelodau rhwng oedran ymddeol arferol a 75 oed?*

## Pensiwn ar gyfer priod/partner sy'n goroesi

*Cwestiwn 8*

*Yn eich barn chi, beth yw'r gyfradd briodol ar gyfer pensiwn priod/partner sy'n goroesi?*

## Diogelu trosiannol

### I. Hawliau Cronedig

*Cwestiwn 9*

*A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig y dylid gweithredu'r cynllun pensiwn ailbrisio enillion newydd i'w alinio â dechrau'r Pumed Cynulliad ym mis Mai 2016, yn hytrach na mis Ebrill 2015 fel sy'n berthnasol ar gyfer y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus?*

*Cwestiwn 10*

*A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch a ddylid cadw'r cysylltiad rhwng cyflog terfynol â'r buddiannau a gronnwyd gan Aelodau'r Cynulliad o dan y cynllun presennol?*

### II. Diogelu Trosiannol ("Grandfathering")

*Cwestiwn 11*

*Ai opsiwn a. neu opsiwn b. sydd fwyaf priodol yn eich barn chi?*

*Cwestiwn 12*

*A ddylid cynnig trefniadau tapro ychwanegol o ran y ddarpariaeth "grandfathering"?*

*Cwestiwn 13*

***Beth yw eich barn chi ynghylch alinio diogelu pensiwn priod/partner â'r un cyfnod â threfniadau "grandfathering" ar gyfer Aelodau'r Cynulliad?***

*Cwestiwn 14*

***Os cynigir trefniadau "grandfathering", a ddylai cyfran Aelodau'r Cynulliad o'r gost o ddarparu buddiannau "grandfathering" gael ei rhannu ar draws holl aelodau presennol y cynllun ac aelodau'r dyfodol, neu ai dim ond yr Aelodau Cynulliad sydd am gael buddiannau "grandfathering" ddylai dalu'r costau hyn?***

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

*Cwestiwn 15*

***A ydych yn credu y byddai unrhyw rai o gynigion y cynllun pensiwn ailbrisio enillion yn cael effaith anghymesur neu'n golygu bod unrhyw grwpiau penodol o bobl o dan anfantais?***

## Cyflwyniad a chefndir i'r ymgynghoriad dros dro hwn

1. Ein mandad fel Bwrdd Taliadau annibynnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw sefydlu system taliadau a chymorth ariannol:

    a. sy'n galluogi Aelodau'r Cynulliad i gyflawni eu dyletswyddau:

    b. sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdodau'r swyddogaethau y mae Aelodau'r Cynulliad yn ymgymryd â hwy; ac

    c. nad yw, ar sail ariannol, yn atal pobl sydd âr ymrwyniad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad.

2. Rydym wedi bod yn adolygu trefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad ers yr haf yn 2012. Penderfynwyd cynnal yr adolygiad hwn yn sgîl nifer o ffactorau.

3. Mae newidiadau demograffig ac economaidd yn y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at gostau cynyddol i ddarparwyr cynlluniau pensiwn, ac mae'r duedd honno'n debygol o barhau. Mae cyhoeddi adroddiad Hutton wedi arwain at newidiadau i'r rhan fwyaf o gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus, a daw y mwyafrif i rym ym mis Ebrill 2015.[1] Yn achos cyflogeion presennol a newydd y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus, bydd cynlluniau pensiwn ailbrisio enillion cyfartalog gyrfa (cynlluniau ailbrisio enillion) (CARE) yn disodli cynlluniau pensiwn cyflog terfynol.

4. Mae hyn yn adlewyrchu newidiadau yn y sector preifat lle mae llawer o gynlluniau pensiwn cyflog terfynol wedi'u disodli gan gynlluniau pensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio. Yn gyffredinol, ystyrir bod y cynlluniau hyn yn llai buddiol i gyflogeion na chynlluniau cyflog terfynol neu gynlluniau ailbrisio enillion.

5. Bydd newidiadau sylweddol i drefniadau pensiwn llawer o unigolion yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf o ganlyniad i'r materion a amlygwyd uchod. Mae'r egwyddor y dylai ein penderfyniadau ystyried y cyd-destun Cymreig yn un o sylfeini ein gwaith a phenderfynwyd cynnal ein hadolygiad o bensiynau oherwydd y newidiadau i'r drefn bensiynau yng Nghymru.

6. Cynhaliwyd ein hymgynghoriad cyhoeddus cyntaf ar bensiynau Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol rhwng mis Medi 2012 a mis Ionawr 2013. Fel rhan o'r ymgynghoriad, gwnaethom gynnal colocwiwm ar 11 Hydref 2012.[2] Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus hwnnw ychydig yn gyfyngedig. Mae crynodeb o'r ymatebion yn Atodiad A.

[1] Y Comisiwn Annibynnol ar Bensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus: Adroddiad terfynol, Mawrth 2011 https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/207720/hutton_final_100311.pdf

[2] Adolygiad o Bensiynau Aelodau'r Cynulliad Materion a Dewisiadau mis Medi 2012http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=375

7. Ers diwedd yr ymgynghoriad cyhoeddus, rydym wedi cael cyngor cyfreithiol ac actiwaraidd sydd wedi helpu i lywio ein ffordd o feddwl, a bydd yn parhau i wneud hynny wrth inni fireinio ein cynigion ymhellach, eu trafod gyda'r bobl yr effeithir arnynt ac ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

8. Yn sgîl yr ymgynghoriad cychwynnol a newidiadau i bensiynau mewn sefydliadau eraill, gan gynnwys llawer yng Nghymru, rydym hefyd wedi ystyried:

   a. a yw'n briodol i newid cynllun pensiwn presennol Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (cynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad) o gynllun cyflog terfynol i fath arall o gynllun;

   b. pa fath o gynllun yw'r mwyaf priodol; a

   c. phryd y dylid cyflwyno unrhyw newidiadau.

9. Rydym wedi dod i'r casgliad y byddai newid yn briodol, ac y dylid newid i gynllun pensiwn ailbrisio enillion. Yn ein barn ni, mae cynlluniau pensiwn ailbrisio enillion yn cynnig cydbwysedd teg rhwng y gost a'r risg i'r trethdalwr a'r budd pensiwn i'r Aelod Cynulliad, yn enwedig o gofio'r ddemograffeg nodweddiadol o ran oedran Aelodau'r Cynulliad.

10. Mae Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 (Deddf 2013) yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer newidiadau i gynlluniau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys cynllun y Cynulliad. O ganlyniad i Ddeddf 2013, ni all unrhyw gynllun pensiwn newydd fod yn gynllun cyflog terfynol. Rydym wedi trafod ein cynigion gyda Thrysorlys ei Mawrhydi i sicrhau bod y trefniadau yn cydymffurfio â gofynion Deddf 2013, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

11. Felly, bwriadwn i gynllun presennol y Cynulliad gael ei ddiwygio i gyflwyno categori budd ailbrisio enillion newydd ar gyfer y rhai sy'n gwasanaethu o ddechrau'r Pumed Cynulliad ym mis Mai 2016. Bydd y drefn newydd yn berthnasol i'r pensiwn a'r buddion ategol sy'n gysylltiedig â chyflog sylfaenol Aelodau'r Cynulliad. Bydd trefniadau pensiynau yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â chyflogau ychwanegol Deiliaid Swyddi, a'r buddion ategol a gaiff eu cyfrif drwy gyfeirio at y cyflogau ychwanegol hyn yn parhau, ar y cyfan, ar y telerau presennol, gan eu bod eisoes ar sail cynllun pensiwn ailbrisio enillion. Fodd bynnag, efallai y bydd newidiadau i rai o'r buddion cysylltiedig fel marwolaeth mewn swydd a phensiwn priod/partner. Gweler Atodiad B.

12. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar sut y dylid gweithredu cynllun newydd o'r fath a pha delerau penodol a ddylai fod yn berthnasol i'r cynllun newydd.

13. Dros y flwyddyn nesaf byddwn hefyd yn gwneud penderfyniad ar gyflogau Aelodau'r Cynulliad o ddechrau'r Pumed Cynulliad ym mis Mai 2016. Bydd ein penderfyniadau ynghylch cyflogau'r Aelodau yn ystyried cyfanswm y taliadau, sef gwerth y cyflog a

chostau cyfraniadau pensiwn y'cyflogwr' at bensiynau Aelodau’r Cynullid. Yn y cyd-destun hwn, bydd Comisiwn y Cynulliad, sef y corff sy'n gyfrifol am ddarparu eiddo, staff a gwasanaethau i'r Cynulliad, yn talu'r swm sy'n cyfateb i gyfraniad y 'cyflogwr'.[3]

14. Yn ddiweddarach yn 2014, byddwn yn cyhoeddi ein hymgynghoriad cyhoeddus terfynol ar bensiynau. Ar yr un adeg, byddwn yn nodi cynigion terfynol ar gyfer y cynllun newydd ac yn gofyn am sylwadau terfynol arnynt. Byddwn hefyd yn gofyn nifer o gwestiynau am gyfanswm y taliadau.

15. Mae crynodeb o brif nodweddion cynllun pensiwn presennol Aelodau'r Cynulliad yn Atodiad B. Mae esboniad o'r nodweddion cyffredin a geir mewn cynlluniau ailbrisio enillion yn Atodiad C ac mae manylion cryno am y safbwynt presennol o ran aelodau etholedig yn neddfwrfeydd eraill y DU yn Atodiad D.

## Diben

16. Dyma ail gyfnod, neu gyfnod interim, ein hadolygiad o drefniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol.  Rydym yn gwahodd sylwadau gan aelodau o'r cyhoedd, Aelodau'r Cynulliad ac Ymddiriedolwyr cynllun pensiwn presennol Aelodau'r Cynulliad.

17. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 21 Mai 2014. Dylid anfon ymatebion at Glerc y Bwrdd Taliadau: taliadau@cymru.gov.uk

## Cynigion a chwestiynau'r ymgynghoriad

18. Codir nifer o gwestiynau penodol yn yr adrannau canlynol (A i F). Mae'r cwestiynau wedi'u cynnwys isod yn yr adrannau perthnasol. I gynorthwyo'r rhai sy'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn, mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Adran I. Mae'r wybodaeth yn Adran I yn cynnwys canlyniadau dangosol gwaith modelu actiwaraidd cymhleth (Tabl 2), a allai fod o gymorth wrth ateb cwestiynau yn Adrannau A i H. Mae Tabl 2 yn ddangosol a’r nod yw ceisio esbonio'r goblygiadau cost posibl i'r 'cyflogwr' a'r 'cyflogai' mewn perthynas â chyfuniadau gwahanol o fuddiannau pensiwn y gellid eu darparu o dan y cynllun ailbrisio enillion arfaethedig newydd. Mae Tabl 3 yn rhoi crynodeb o'r prif delerau arfaethedig ar gyfer nifer o gynlluniau pensiwn ailbrisio enillion mawr y sector cyhoeddus.

### A Dyraniad Cost

19.  Bydd y cynllun pensiwn presennol yn cael ei brisio ddiwedd mis Mawrth 2014. Mae'r prisiad hwn yn debygol o ddangos y bydd y gost o ariannu'r cynllun presennol yn codi ar

[3] Deiliaid Swyddi, ac nid cyflogeion yw Aelodau’r Cynulliad. Felly, nid oes ganddynt gyflogwr. Focc bynnag, at ddibenion cynllun pensiwn newydd arfaethedig Aelodau’r Cynulliad, mae Trysorlys EM wedi dangos y dylai Comisiwn y Cynulliad, at ddibenion Deddf 2013, gael ei ystyried yn “gyflogwr”, ac Aelodau’r Cynulliad gael eu hystyried yn “gyflogeion”. Felly, at y dibenion hwn, cyfraniadau’r cyflogwr a’r cyflogai yw’r cyfraniadau a gaqiff eu gwneud gan Gomisiwn y Cynulliad ac Aelodau’r Cynulliad, yn y drefn honno – ar y cyfan yn debyg i’r ffordd y cant eu gwneud o dan y cynllun pensiwn presennol.

gyfer croniadau yn y dyfodol. Mae terfyn uchaf o 23.8% ar gyfradd cyfraniadau Comisiwn y Cynulliad. Felly, bydd angen ystyried newid cyfraddau cyfraniadau' Aelodau'r Cynulliad a/neu ddarparu buddiannau drwy'r cynllun ar ôl cyhoeddi canlyniadau'r prisiad, er mwyn sicrhau bod y cynllun pensiwn presennol yn parhau i gael ei ariannu'n llawn.

20. Mae'r dyraniad cost presennol yn golygu bod rhan sylweddol (tua 19%) o gyfanswm taliadau presennol Aelodau'r Cynulliad (h.y. eu cyflog sylfaenol ynghyd â'u cyfraniadau pensiwn) yn gysylltiedig â chyfraniadau pensiwn trethdalwyr.

**Tabl 1: Costau prif nodweddion cynllun presennol Aelodau'r Cynulliad o'i gymharu â chynllun presennol ac arfaethedig Aelodau Seneddol**

| | Cynllun Aelodau'r Cynulliad | Cynllun Aelodau Seneddol | |
|---|---|---|---|
| | Presennol | Presennol | Arfaethedig |
| Cyfradd Croniadau | 1/40 | 1/40 | 1/51 |
| Cyfanswm y gost fel % o'r cyflog | 33.8% | 34.2% | 22.9% |
| | | | |
| **Cyfraniad yr Aelodau** | | | |
| fel % o'r cyflog | 10.0% | 13.9% | 10.5% |
| fel % o gyfanswm y gost | 29.6% | 40.5% | 45.9% |
| **Cyfraniad y trethdalwr** | | | |
| fel % o'r cyflog | 23.8% | 20.4% | 12.4% |
| fel % o gyfanswm y gost | 70.4% | 59.5% | 54.1% |

21. Mae diwygiadau Llywodraeth y DU i bensiynau'r sector cyhoeddus wedi anelu at gymhareb o 60:40 ar gyfartaledd o ran y gost i gyflogwyr a chyflogeion. Gyda llawer o gynlluniau newydd y sector cyhoeddus, bydd cyfraddau cyfraniadau cyflogeion haenog er mwyn cyflawni'r gymhareb honno – er enghraifft, gyda chyflogeion ar gyflogau uwch yn gwneud mwy o gyfraniad na chyflogeion ar gyflogau is.

22. Mae'r costau o dan gynllun pensiwn cyflog terfynol presennol Aelodau'r Cynulliad wedi'u dyrannu tua 70:30 yn seiliedig ar gyfraddau presennol y cyflogwr a chan ddefnyddio cyfradd gyfraniadau Aelodau'r Cynulliad sef 10% o'u cyflog sylfaenol[4]. Mae hyn yn sicrhau cyfradd groniadau pensiwn o un rhan o ddeugain ar gyfer y rhan fwyaf o

[4]Er bod modd i Aelodau'r Cynulliad dalu cyfradd is o 6% (am gyfradd groniadau pensiwn o un rhan o hanner cant) o dan y cynllun pensiwn presennol, mae'r mwyafrif llethol o Aelodau'r Cynulliad yn talu cyfradd uwch o 10% (am gyfradd groniadau pensiwn o un rhan o ddeugain).

Aelodau'r Cynulliad.  Cyfanswm cost y cynllun pensiwn presennol yw tua 33.8% o gyflogres Aelodau'r Cynulliad. Mae Comisiwn y Cynulliad yn talu cyfraniad o tua 23.8%, sef y rhan o’r gost sy'n dod o arian trethdalwyr.

23. O gymharu, mae'r cynllun pensiwn cyflog terfynol **presennol** ar gyfer Aelodau Seneddol yn San Steffan yn costio cyfanswm (cyfraniadau'r cyflogwr a'r cyflogai wedi'u cyfuno) o tua 34.2% o'r gyflogres Aelodau Seneddol, ac mae Aelodau Seneddol yn gwneud cyfraniadau ar lefelau amrywiol am gyfraddau croniadau gwahanol (mae'r rhan fwyaf yn talu cyfradd groniadau o un rhan o ddeugain). Dangosir hyn yn Nhabl 1. Mae'r Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol wedi penderfynu y dylai'r cynllun pensiwn ailbrisio enillion arfaethedig newydd ar gyfer Aelodau Seneddol San Steffan, a fydd ar waith o fis Ebrill 2015, anelu at ddyraniad cost o 54:46 rhwng y cyflogwr a'r cyflogeion ar y cychwyn.[5]

***Cwestiwn 1***

***A ddylai'r cynllun ailbrisio enillion arfaethedig newydd i Aelodau'r Cynulliad ddilyn trywydd cynlluniau eraill yn y sector cyhoeddus, gydag Aelodau'r Cynulliad yn talu cyfran uwch o'r gost na'r drefn bresennol?***

***Cwestiwn 2***

***Faint y dylai'r Comisiwn gyfrannu at gynllun pensiwn Aelod fel canran o gyfanswm taliadau'r Aelod?***

***Cwestiwn 3***

***Sut rydych chi’n credu y dylid rhannu cost gyffredinol y cynllun ailbrisio enillion newydd rhwng Comisiwn y Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad?***

## B Cyfraddau croniadau ac ailbrisio

24. Y gyfradd groniadau yw'r gyfran o enillion a gronnwyd fel pensiwn yn ystod blwyddyn benodol. Defnyddir y gyfradd ailbrisio i gynyddu gwerth pob blwyddyn o'r pensiwn a gronnwyd hyd at  ymddeoliad. Mae'r ddau ffactor hyn yn effeithio ar gostau cynllun. I sicrhau'r un lefel o bensiwn, os cynyddir y gyfradd groniadau byddai angen lleihau'r gyfradd ailbrisio, neu fel arall (dangosir hyn yn ddiweddarach yn y ddogfen hon yn Nhabl 2).

25. Mae Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyfradd ailbrisio gael ei phennu yn unol â newidiadau mewn prisiau (mynegai prisiau defnyddwyr) neu enillion mewn cyfnod penodol. Bydd Trysorlys ei Mawrhydi yn pennu cyfradd y newid mewn prisiau neu

[5] Adroddiad terfynol yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol ar gyflogau a phensiynau Aelodau Seneddol (Rhagfyr 2013)
www.http://parliamentarystandards.org.uk/payandpensions/Documents/IPSA%20final%20report.pdf

enillion i'r perwyl hwnnw. Mae'r rhan fwyaf o gyflogwyr mawr y sector cyhoeddus wedi penderfynu dewis cyfradd ailbrisio a gyfrifwyd drwy gyfeirio at newidiadau yn y mynegai prisiau defnyddwyr yn hytrach na drwy gyfeirio at newidiadau mewn enillion. Mae'r Bwrdd Taliadau yn bwriadu mabwysiadu dull gweithredu tebyg. Nodir rhagor o wybodaeth am gyfraddau croniadau a buddiannau pensiwn eraill yn Nhablau 2 a 3 yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

26. At hynny, bydd y Bwrdd yn ystyried a ddylai'r cynllun gynnig mwy nag un gyfradd groniadau i'w aelodau. O dan y cynllun pensiwn cyflog terfynol presennol, mae gan Aelodau'r Cynulliad ddewis o ddwy gyfradd groniadau (1/40 a 1/50) gyda chyfradd o 10% a 6% ar gyfer cyfraniadau Aelodau'r Cynulliad yn y drefn honno. Mae 58 o'r 61 Aelod presennol o gynllun y Cynulliad wedi dewis y gyfradd groniadau 1/40.

27. Rydym wedi cael gwybod y byddai cyflwyno mwy nag un gyfradd groniadau yn y cynllun pensiwn ailbrisio enillion newydd yn debygol o gymhlethu'r gwaith o weinyddu'r cynllun a'i reoli'n ariannol, gan arwain at gost ychwanegol. Yn ogystal, mae cynlluniau pensiwn ailbrisio enillion arfaethedig y rhan fwyaf o sefydliadau mawr y sector cyhoeddus wedi mabwysiadu cyfradd groniadau sengl yn eu telerau. Am y rhesymau hyn, mae'r Bwrdd Taliadau yn cynnig y dylai'r cynllun pensiwn ailbrisio enillion newydd fod â chyfradd groniadau sengl.

***Cwestiwn 4***

***Beth yw eich barn chi ar y cynnig y dylai'r cynllun pensiwn ailbrisio enillion newydd gael un gyfradd groniadau ar gyfer holl Aelodau'r Cynulliad?***

## C Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol

28. O dan y cynllun pensiwn cyflog terfynol presennol, gall Aelodau'r Cynulliad ddewis cynyddu'r buddiannau sy'n daladwy ar adeg eu hymddeoliad drwy dalu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol. Mae hyn yn eu galluogi i brynu blynyddoedd ychwanegol o gredyd gwasanaeth. Mae risg ariannu ynghlwm wrth yr opsiwn hwn ar gyfer y cynllun pensiwn yn y dyfodol. Gyda'r rhan fwyaf o gynlluniau'r sector preifat, dim ond ar sail cyfraniad wedi'i ddiffinio y gellir gwneud cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (AVC). Mae hynny'n golygu y byddai cronfa cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol yr Aelod, ar sail cyfraniadau wedi'u diffinio, ar gael ar adeg ei ymddeoliad er mwyn sicrhau pensiwn ychwanegol ond ni fyddai unrhyw sicrwydd o ran lefel y buddiannau ychwanegol a gaiff eu darparu. Gwneir hyn fel arfer drwy brynu blwydd-dal gan yswiriwr, er y gallai hyn newid o ganlyniad i gynigion Cyllideb diweddar Llywodraeth y DU. Gyda chynllun cyflog terfynol presennol Aelodau'r Cynulliad, nid oes modd gwneud cyfraniadau er mwyn cael buddiannau ar sail cyfraniadau wedi'u diffinio.

29. Nid oes gofyniad cyfreithiol i ddarparu cyfleuster cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol fel rhan o'r cynllun pensiwn ailbrisio enillion arfaethedig newydd. Byddai hynny'n gwneud y cynllun yn fwy cymhleth i'w weinyddu ac yn fwy costus. Mae amrywiaeth o opsiynau eraill ar gael y tu hwnt i gynlluniau pensiwn galwedigaethol lle y gall unigolion gynyddu eu buddiannau pensiwn – yn enwedig drwy bensiynau buddsoddi personol (SIPP). Mae pensiynau buddsoddi personol ar gael yn eang, a gellir eu teilwra i anghenion penodol pob unigolyn. Am y rhesymau hynny, mae'r Bwrdd Taliadau o'r farn na ddylai'r cynllun pensiwn ailbrisio enillion newydd gynnwys cyfleuster i brynu blynyddoedd ychwanegol o gredyd gwasanaeth na gwneud cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol ar sail cyfraniadau wedi'u diffinio.

***Cwestiwn 5***

***A ddylem ganiatau Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol i'r cynllun newydd?***

## D Oedran pensiwn arferol

30. Fel rhan o'r broses o ddiwygio cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus, mae Llywodraeth y DU wedi nodi y dylai cynlluniau gynnwys oedran ymddeol arferol oedran pensiwn y wladwriaeth rhywun, neu 65 oed os bydd eu hoedran pensiwn y wladwriaeth yn iau na 65 oed. Ar hyn o bryd mae oedran pensiwn y wladwriaeth rhywun yn dibynnu ar ei ddyddiad geni a'i ryw. Bwriedir codi oedran pensiwn y wladwriaeth i 65 oed ar gyfer menywod erbyn mis Tachwedd 2018, a bydd oedran pensiwn y wladwriaeth yn codi i 66 oed ar gyfer dynion a menywod erbyn mis Hydref 2020. Ym Mil Pensiynau 2013-2014, mae'r Llywodraeth yn cynnig codi oedran arfaethedig pensiwn y wladwriaeth i 67 oed rhwng 2026 a 2028, sy'n gynharach na'r amserlen wreiddiol a bennwyd yn 2007.

31. Yr oedran ymddeol arferol ar gyfer cynllun pensiwn presennol Aelodau'r Cynulliad yw 65 oed. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau pensiwn ailbrisio enillion arfaethedig newydd y sector cyhoeddus wedi dilyn oedran pensiwn darged y Llywodraeth.

32. Yn unol âgofynion Deddf 2013, oedran pensiwn arferol rhywun o dany cynllun pensiwn ailbrisio enillion arfaethedig newydd fydd yr uchaf o 65 ac oedran pensiwn y wladwriaeth rhywun. Bydd hyn yn cael effaith ar oedran ymddeol rhai o Aelodau'r Cynulliad a fydd yn gwasanaethu yn y Pumed Cynulliad.

## E Buddiannau ar adeg marwolaeth mewn swydd

33. Mae'r cynllun pensiwn presennol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn darparu ar gyfer talu swm o bedair gwaith cyflog pensiynadwy yr Aelod i ddibynyddion neu ystâd yr Aelod a fu farw (yn unol â'r hyn a nododd yn ysgrifenedig cyn ei farwolaeth) os bydd Aelod yn marw tra bydd yn ei swydd. Mae yr un llu o fuddiannau marwolaeth mewn swydd yn berthnasol i gyflogau ychwanegol a delir i Ddeiliaid Swyddi.

34. Mae amrywiaeth eang o fuddiannau yng ngyswllt marwolaeth mewn swydd ar gael drwy gynlluniau sector cyhoeddus a sector preifat, ac mae lefel debyg o gwahaniaeth yn yr amrywiaeth o fuddiannau marwolaeth mewn swydd o dan gynlluniau pensiwn ailbrisio enillion arfaethedig amrywiol y sector cyhoeddus (fel y dangosir yn Nhabl 3 isod). Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau mawr y sector cyhoeddus yn cynnig buddiannau marwolaeth mewn swydd sydd gyfwerth â dwywaith neu deirgwaith cyflog pensiynadwy yr unigolyn.

35. Pe bai newid yn cael ei gyflwyno i'r lluosiad marwolaeth mewn swydd o dan y cynllun pensiwn ailbrisio enillion newydd, byddai'n gymwys o ddechrau'r Pumed Cynulliad i bob Aelod Cynulliad cymwys o ran cyflogau sylfaenol a chyflogau ychwanegol Deiliaid Swyddi.

36. Cyfanswm y costau posibl o ddarparu buddiannau marwolaeth o dan gynllun ar gyfer aelodau sydd â phroffil oedran a rhyw tebyg i rai'r Aelodau Cynulliad presennol yw tua 0.25% o gyflog ar gyfer pob lluosiad o gyflog blynyddol a ddarperir fel buddiant (hynny yw, cost darparu buddiant marwolaeth mewn swydd o bedair gwaith cyflog yw tua 1.0% o'r cyflog a chost darparu buddiant marowlaeth yn y swydd o ddwy waith cyflog yw tua 0.5% o'r cyflog). Mae Tabl 2 yn dangos cost posibl cynllun pensiwn ailbrisio enillion o ystyried y darperir ddwywaith y cyflog o fuddiant marwolaeth mewn swydd.

***Cwestiwn 6:***

***Yn eich barn chi, beth yw'r gyfradd briodol o ran buddiannau marwolaeth mewn swydd fel lluosiad o gyflog sylfaenol (a, lle y bo'n berthnasol, cyflogau Deiliaid Swyddi ychwanegol) y dylid ei chynnwys yng nghynllun pensiwn ailbrisio enillion Aelodau'r Cynulliad?***

37. Mae'r gost o ddarparu buddiannau marwolaeth mewn swydd yn codi'n gyflym wrth i oedran yr aelod godi. Mae cynllun presennol Aelodau'r Cynulliad yn darparu yr un lefel o fuddiannau ar gyfer pob aelod. Mae uchafswm oedran ar gyfer bod yn gymwys – o dan reolau treth presennol, ni ellir rhoi rhodd ar farwolaeth mewn swydd i rywun os yw'r person a fu farw wedi cyrraedd 75 oed pan fu farw,.

38. Mae'r Bwrdd wrthi'n ystyried meini prawf cymhwysedd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad i gael y buddiannau hyn wrth farw mewn swydd. Mae nifer o ffyrdd o ymdrin â hyn, ac a) yw'r mwyaf costus a d) yw'r lleiaf costus:

    a. Cymhwysedd marwolaeth mewn swydd i bob Aelod Cynulliad sydd mewn swydd;

    b. Cymhwysedd marwolaeth mewn swydd i Aelodau'r Cynulliad sydd o dan yr oedran pensiwn arferol o dan y cynllun pensiwn ailbrisio enillion newydd a'r rhai sydd wedi cyrraedd oedran pensiwn arferol ond nad ydynt wedi dechrau codi pensiwn;

    c. Cymhwysedd marwolaeth mewn swydd i Aelodau'r Cynulliad sydd o dan yr oedran pensiwn arferol o dan y cynllun pensiwn ailbrisio enillion newydd. I'r rhai

sydd wedi cyrraedd yr oedran pensiwn arferol, gellir lleihau buddiannau marwolaeth mewn swydd yn raddol gan 10% o'r swm lluosi arferol bob blwyddyn tan 75 oed, ac yna byddai'r hawl yn dod i ben; neu

d. Cymhwysedd marwolaeth mewn swydd i Aelodau'r Cynulliad dim ond pan maent o dan oedran pensiwn arferol o dan y cynllun pensiwn ailbrisio enillion newydd.

39. Mae'r Bwrdd yn ystyried newid y cymhwysedd i fuddion marwolaeth mewn swydd fel mai dim ond i aelodau o dan yr oedran ymddeol arferol y mae'r ystod lawn o fuddiannau ar gael. Bydd y Bwrdd yn ystyried lefel briodol o fuddion (h.y. dwywaith, teirgwaith neu bedair gwaith y cyflog) ac a ddylid cyflwyno unrhyw fath o ddarpariaeth tapro rhwng yr oedran ymddeol arfeol a 75 oed.

***Cwestiwn 7***

***A ddylai'r oedran ymddeol arferol fod yn 'derfyn' ar gyfer bod yn gymwys i gael buddiannau marowlaeth mewn swydd? Os felly, pa fath o dapro ddylid ei ddarparu ar gyfer aelodau rhwng oedran ymddeol arferol a 75?***

## F Pensiwn ar gyfer priod/partner sy'n goroesi

40. Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus – boed yn rhai cyflog terfynol neu ailbrisio enillion – yn cynnwys darpariaethau i'w gwneud yn bosibl talu pensiwn aelod o gynllun pensiwn a fu farw i briod neu bartner sy'n goroesi. Mewn rhai achosion, gwneir darpariaeth hefyd i dalu buddiannau i blant o dan oedran penodol neu ddibynyddion eraill yr aelod a fu farw. Caiff pensiwn priod/partner sy'n goroesi ei fynegi fel ffracsiwn neu ganran o bensiwn yr aelod a fu farw fel arfer. O dan gynllun cyflog terfynol presennol Aelodau'r Cynulliad, mae pensiwn y priod/partner sy'n goroesi yn bum rhan o wyth (62.5%) o bensiwn yr Aelod a fu farw. Mae'r cynllun presennol hefyd yn cynnwys darpariaethau i wneud buddiannau'n daladwy i ddibynyddion eraill. Mae gwahaniaeth eithaf eang yn y cyfraddau o ran pensiynau goroeswyr pensiynau prif gynlluniau pensiwn ailbrisio enillion arfaethedig y sector cyhoeddus, sy'n amrywio o 33.75% i 62.5% o hawliad pensiwn yr aelod a fu farw.

***Cwestiwn 8***

***Yn eich barn chi, beth yw'r gyfradd briodol ar gyfer pensiwn priod/partner sy'n goroesi?***

## G Diogelu trosiannol

### I. Hawliau cronedig

41. Bydd y cynllun pensiwn ailbrisio enillion newydd yn dod i rym ar ddiwrnod cyntaf y Pumed Cynulliad ym mis Mai 2016. O dan y drefn hon, bydd trefniadau'r cynllun cyflog terfynol presennol o ran cronni buddiannau yn dod i ben (ar gyfer gwasanaeth yn y dyfodol) yn syth cyn i'r cynllun ailbrisio enillion newydd ddod i rym.

42. Bydd hawliau'r Aelodau Cynulliad sydd wedi cyfrannu ac wedi cronni buddiannau o dan y cynllun pensiwn presennol yn cael eu diogelu. Dyddiad dechrau'r cynlluniau pensiwn ailbrisio enillion newydd ar gyfer y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus fydd 1 Ebrill 2015. Cynnig y Bwrdd Taliadau yw alinio dyddiadn dechrau cynllun pensiwn ailbrisio enillion newydd gyda dyddiad dechrau'r Pumed Cynulliad ym mis mai 2016. Mae hyn yn golygu y bydd Aelodau'r Cynulliad yn y Pedwerdd Cynulliad yn cronni buddiannau o dan y cynllun cyflog terfynol presennol tan ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad tua mis Ebrill 2016, am tua blwyddyn yn ychwanegol o'i gymharu â llawer o'r sector cyhoeddus.

43. Un o'r materion a ystyriwyd gennym yw a ddylid cysylltu'r buddiannau o'r cynllun pensiwn presennol y mae'r aelodau wedi'u cronni hyd at y dyddiad cau gyda'u cyflog pensiynadwy ar y dyddiad cau, neu a oes ganddynt hawl i gysylltu'r buddiannau â'u cyflog terfynol. Os rhoddir hawl i gysylltu'r buddiannau â'r cyflog terfynol, bydd hynny'n golygu, er na fydd modd cronni gwasanaeth pensiynadwy o dan yr hen gynllun bellach, caiff pensiwn yr aelodau ar gyfer eu cyfnod o wasanaeth yn yr hen gynllun ei gysylltu â'u cyflog terfynol pan fyddant yn cyrraedd yr oedran pensiwn arferol (neu'n gadael eu swyddi fel Aelodau Cynulliad os bydd hynny'n digwydd yn gyntaf).

44. Bydd torri'r cysylltiad â'r cyflog terfynol yn rhoi mwy o sicrwydd o ran cost gan ei fod yn atal codiadau cyflog yn y dyfodol rhag cynyddu rhwymedigaethau'r cynllun ac felly'r gost. Nid oes gofyniad cyfreithiol i gadw'r cysylltiad hwnnw rhwng y buddiannau a gronnwyd â'r cyflog terfynol, ond roedd cadw'r cysylltiad rhwng gwasanaeth yn y gorffennol â chyflog wedi bod yn un o brif nodweddion y broses o ddiwygio cynlluniau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus. Am y rheswm hwnnw, rydym yn bwriadu dilyn y dull gweithredu hwnnw a chadw'r cysylltiad rhwng y cyflog terfynol â'r buddiannau a gronnwyd o dan yr hen gynllun cyflog terfynol.

***Cwestiwn 9***

***A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig y dylid gweithredu'r cynllun pensiwn ailbrisio enillion newydd i'w alinio â dechrau'r Pumed Cynulliad ym mis Mai 2016, yn hytrach na mis Ebrill 2015 fel sy'n berthnasol ar gyfer y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus?***

***Cwestiwn 10***

***A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch a ddylid cadw'r cysylltiad rhwng cyflog terfynol â'r buddiannau a gronnwyd gan Aelodau'r Cynulliad o dan y cynllun presennol?***

### II. Diogelu trosiannol i aelodau hŷn (grandfathering)

45. Mae'r term "grandfathering" yn Saesneg yn cwmpasu nifer o drefniadau posibl a gynlluniwyd i ddiogelu aelodau hŷn rhag cael eu heffeithio'n anghymesur gan newidiadau pensiwn.

46. Wrth ddiwygio pensiynau'r sector cyhoeddus, ceisiwyd sicrhau na fydd unrhyw newid i oedran pensiwn aelodau o'r cynllun y maent o fewn cyfnod penodedig i'w hoedran ymddeol/oedran pensiwn arferol o dan y cynlluniau pensiwn presennol, ac na fydd unrhyw ostyngiad yn y buddiannau y maent yn eu cael (gan gynnwys pensiwn priod/partner). Y term am hyn yw "grandfathering".

47. Ym mhob un o gynlluniau mawr y sector cyhoeddus, o 1 Ebrill 2012 ymlaen, diogelwyd aelodau o'r cynllun a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran ymddeol/oedran pensiwn arferol – h.y. byddant yn parhau i gronni buddiannau pensiwn yn y cynllun pensiwn terfynol i bob pwrpas. Mae rhai o gynlluniau'r sector cyhoeddus hefyd yn cynnwys trefniadau tapro i aelodau o gynlluniau pensiwn a oedd o fewn, er enghraifft, 13.5 mlynedd i'r oedran ymddeol arferol ar 1 Ebrill 2012.

48. Bydd darparu diogelwch "grandfathering" i Aelodau hŷn o'r Cynulliad sy'n aelodau o'r cynllun terfynol presennol ac yn parhau i fod yn Aelodau o'r Pumed Cynulliad, hyd yn oed am gyfnod o 5 mlynedd o 1 Ebrill 2012, yn arwain at gostau sylweddol.

49. Roedd dros draean o Aelodau presennol y Cynulliad sy'n cyfrannu at y cynllun ar hyn o bryd o fewn 10 mlynedd neu fwy i'w hoedran ymddeol arferol ar 1 Ebrill 2012, ac roedd dros eu hanner o fewn (neu dros) 13.5 mlynedd i'w dyddiad ymddeol arferol ar y dyddiad hwnnw.

50. Er bod pob un o gynlluniau mawr y sector cyhoeddus wedi cyflwyno 10 mlynedd o ddiogelwch "grandfathering" i aelodau hŷn o'r cynllun pensiwn tan o leiaf fis Ebrill 2022, nid oes gofyniad cyfreithiol i wneud hynny. Mae nifer o opsiynau posibl ar gael. Dyma'r prif rai yr ydym yn eu hystyried:

a. Diogelwch “grandfathering” i'r Aelodau Cynulliad hynny a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran ymddeol arferol (55 oed neu hŷn) ar 1 Ebrill 2012 tan fis Ebrill/Mai 2022; neu

b. Darparu diogelwch “grandfathering” i’r Aelodau Cynulliad hynny a fydd yn 60 oed neu’n hŷn ar ddyddiad dechrau’r Pumed Cynulliad (1 Mai 2016), a hynny am dymor y Cynulliad hwnnw (neu am bum mlynedd os yw’nhirach na’r tymor hwnnw). 1 Mai 2016 hefyd yw dyddiad dechrau arfaethedig y cynllun pensiwn ailbrisio enillion newydd, ac felly bydd y cyfnod diogelu trosiannol, “gandfathering”, wedi'i gysylltu â thymor y Cynulliad hwnnw. Byddai'r dull hwn yn lleihau'r cyfnod “grandfathering” i bob pwrpas o gymharu ag a), uchod, o un flwyddyn.

c. Trefniadau “grandfathering” i’r Aelodau hynny o’r Cynulliad sydd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran ymddeol arferol ar 1 Mai 2016 (dyddiad dechrau'r Pumed Cynulliad).

d. Trefniadau “grandfathering” i holl Aelodau'r Cynulliad a oedd yn Aelodau Cynulliad ar ddechrau'r Pedwerydd Cynulliad ar 1 Mai 2011.

51. Byddai opsiwn d. (uchod) llawer yn fwy drud na'r dewisiadau eraill a amlinellwyd. Byddai'n dileu'r rhan fwyaf o'r arbedion cost posibl i'r cyflogwr a ddaw yn sgîl y cynllun pensiwn ailbrisio enillion am gyfnod sylweddol. Mae'r opsiwn hwn hefyd llawer yn fwy hael nag unrhyw un o gynlluniau eraill y sector cyhoeddus. Am y rheswm hwnnw, mae'r Bwrdd Taliadau wedi penderfynu peidio â mynd ar drywydd yr opsiwn hwn. Opsiwn c) yw'r opsiwn drutaf ond un ac mae hefyd yn fwy hael na chynlluniau eraill y sector cyhoeddus. Rydym wedi penderfynu peidio ag ystyried yr opsiwn hwn yn fanylach.

52. Mae'r ddau opsiwn arall a. a b. yn agosach at y dull a ddefnyddir gan gynlluniau eraill yn y sector cyhoeddus. Mae opsiwn b) yn llai costus nag opsiwn a). Mae'n clymu'r diogelwch trosiannol, neu “grandfathering”, i un tymor Cynulliad (neu bum mlynedd os yw’n hirach) a allai wneud trefniadau gweinyddu ac ariannu'r cynllun ailbrisio enillion newydd yn llai cymhleth.

### *Cwestiwn 11*

***Ai opsiwn a. neu opsiwn b. (uchod) sydd fwyaf priodol yn eich barn chi?***

53. Drwy ohirio dyddiad dechrau’r cynllun pensiwn ailbrisio enillion newydd yn ôl tan fis Mai 2016, dylid nodi y bydd pob Aelod Cynulliad sydd mewn swydd ar ddiwedd y Pedwerydd Cynulliad yn cael blwyddyn ychwanegol o fuddiannau pensiwn cynllun cyflog terfynol o’i gymharu â llawer o’u cyfoedion yn y sector cyhoeddus. O gofio costau diogelu trosiannol ac er mwyn darparu buddiannau sy’n rhesymol gyfartal rhwng aelodau hŷn ac aelodau

iau y cynllun, nid yw'r Bwrdd Taliadau yn argymell cynnig trefniadau tapro ychwanegol at y ddarpariaeth diogelu trosiannol.

54. Er mwyn cynnal y cydbwysedd yn erbyn y gost i'r trethdalwr, mae'r Bwrdd yn ystyried cynnig diogelwch "grandfathering" i'r aelodau presennol hynny o Gynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad, a fydd o fewn pum mlynedd i oedran ymddeol arferol (sef aelodau 60 oed a hŷn) ar ddiwrnod cyntaf y Pumed Cynulliad. Byddai'r diogelwch "grandfathering" hwn yn parhau tan ddiwedd y Pumed Cynulliad, neu 31 Ebrill 2021, pa un bynnag yw'r hwyraf. Ar ôl y dyddiad hwn byddai holl aelodau cynllun y Cynulliad yn cronni buddiannau yn y dyfodol o dan reolau'r cynllun newydd. Argymhellir y byddai cyfradd pensiynau'r priod/partner yn destun diogelwch "grandfathering" yn ôl 5/8 sy'n berthnasol o dan y cynllun cyflog terfynol presennol am dymor y Pumed Cynulliad (neu 5 mlynedd o 1 Mai 2016 pe bai'n hirach). Ni fyddai unrhyw newidiadau i gyfraddau neu delerau Marwolaeth mewn Swydd fyddai'n gymwys o ddechrau'r Pumed Cynulliad,yn destun diogelwch "grandfathering", felly byddai'r newidiadau hynny yn gymwys i bob Aelod Cynulliad a fyddai'n gwasanaethu ar ddiwrnod cyntaf y Pumed Cynulliad.

***Cwestiwn 12***

***A ddylid cynnig trefniadau tapro ychwanegol o ran y ddarpariaeth "grandfathering"?***

***Cwestiwn 13***

***Beth yw eich barn chi ynghylch alinio diogelu pensiwn priod/partner â'r un cyfnod â threfniadau "grandfathering" ar gyfer Aelodau'r Cynulliad?***

55. Cyfanswm costau'r cynllun pensiwn presennol yw 33.8% o gyflogau, gyda chyfraniad y Comisiwn yn 23.8%. Ni chaiff y gyfradd hon ei chodi. Oherwydd newidiadau mewn disgwyliad oes, chwyddiant a pherfformiad buddsoddi sydd wedi digwydd ers prisiad diwethaf Cronfa Bensiwn yr Aelodau yn 2011, rydym yn cael ein cynghori bod y gyfradd cyfraniadau fydd ei hangen i sicrhau y bydd y cynllun presennol yn cael ei ariannu'n llawn, ar yr amod na fudd newidiadau i fuddiannau, yn debygol o godi. Mae'r cyngor a gawsom wedi dangos y gallai'r gost godi'n sylweddol yn dilyn prisiad y cynlluniau yn 2014. O gofio bod y swm y mae'r Cynulliad wedi cytuno i'w ariannu yn gyfyngedig i 23%, gallai hyn olygu y byddai angen i gyfraniadau Aelodau'r Cynulliad godi, neu y byddai'r buddiannau a gaiff eu darparu gan y cynllun yn gostwng.

56. Mewn cynlluniau pensiwn eraill yn y sector cyhoeddus, caiff rhan o'r gost o ddarparu buddiannau "grandfathering" ei rhannu ar draws holl aelodau'r cynllun pensiwn, yn ogystal â'r trethdalwr drwy gyfraniadau'r cyflogwr. Pe ba dull tebyg yn cael ei fabwysiadu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, byddai'n golygu bod rhan o gyfraniadau pensiwn y dyfodol a wneir gan aelodau iau y cynllun a'r holl aelodau sy'n ymuno ar ôl 1 Mai 2016 yn cyfrannu at y lefelau uwch o fuddiannau a gaiff eu rhoi i aelodau sy'n destun trefniadau "grandfathering". Dull arall fyddai caniatáu aelodau sydd am gael

buddiannau “grandfathering” i fanteisio ar hynny, ond ar y sail bod angen i’w cyfraniadau personol aros ar y lefel fyddai wedi bod ei hangen pe na bai newidiadau yn cael eu gwneud i’r cynllun o gwbl. Pe bai hyn yn cael ei gyflwyno, byddai aelodau a gaiff fuddiannau “grandfathering” o dan reolau’r hen gynllun yn talu cyfraniad uwch na’r aelodau nad ydynt yn cael y cyfraddau uwch hynny o fuddiannau.

***Cwestiwn 14***

***Os caiff diogelwch “grandfathering” ei gynnig, a ddylai cyfran Aelodau’r Cynulliad o gostau darparu buddiannau “grandfathering” gael eu rhannu ar draws pob Aelod presennol o’r cynllun, ac aelodau’r dyfodol, ynteu a dim ond Aelodau’r Cynulliad sydd am gael buddiannau “grandfathering” ddylai dalu?***

## H Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

57. Nid oes gofyniad cyfreithiol i'r Bwrdd Taliadau gynnal asesiad ffurfiol o effaith ein penderfyniadau ar gydraddoldeb. Fodd bynnag, rydym yn ystyried mai dyna'r arfer gorau a byddwn yn defnyddio'r dull gweithredu hwnnw yng nghyswllt ein gwaith ar bensiynau.

58. Mae hynny'n golygu y byddwn yn ystyried effaith bosibl ein cynigion ar gydraddoldeb ar gyfer grwpiau gwahanol o bobl. Mae'r cysyniad hwn yn berthnasol i Aelodau presennol o'r Cynulliad a darpar Aelodau.

***Cwestiwn 15***

***A ydych yn credu y byddai unrhyw rai o gynigion y cynllun pensiwn ailbrisio enillion yn cael effaith anghymesur ar grwpiau penodol neu’n golygu bod unrhyw grwpiau penodol o bobl o dan anfantais?***

## I Gwybodaeth ariannol ategol

59. Caiff y gost o ddarparu buddiannau pensiwn eu hamcangyfrif gan actiwari'r cynllun. Wrth ystyried newidiadau, gwneir nifer o dybiaethau o ran demograffeg aelodau'r cynllun, y buddiannau a ddarperir, chwyddiant yn y dyfodol, enillion ac elw ar fuddsoddiadau. Rydym wedi cael cyngor actiwaraidd proffesiynol i gynnal cyfres o gyfrifyddiadau a datblygu model actiwaraidd unigryw. Y tybiaethau sy'n gwneud yr amcangyfrifon gorau. Maent yn seiliedig ar ffactorau fel demograffeg yr Aelodau Cynulliad presennol, newidiadau posibl i'r unigolion sy'n Aelodau Cynulliad ar ddechrau'r Pumed Cynulliad, a thybiaethau actiwaraidd ac ariannol eraill. Gan mai tybiaethau sy'n ddibynnol ar amrywiaethau anhysbys yn y dyfodol ydynt, dangosol yn unig yw'r cyfrifyddiadau a nodir.

60. Yr amrywiaethau mwyaf sylweddol sy'n dylanwadu ar gost cynllun pensiwn ailbrisio enillion aelodau yn y dyfodol yw cyfraddau cronni, cyfradd ailbrisio Enillion Cyfartalog Gyrfa bob blwyddyn, a'r lefel o fuddiannau a ddarperir mewn pensiwn i bensiwn y sawl sy'n goroesi a'r buddiannau marwolaeth mewn swydd a ddarperir.

61. Mae Tabl 2 isod yn dangos rhai o'r modelau actiwaraidd. Mae'n rhoi cyd-destun ariannol cyffredinol i'r rhai sy'n ymateb i'n hymgynghoriad ac effaith bosibl y dewisiadau sydd angen eu gwneud. Mae'r tabl yn rhoi amcangyfrif o gostau posibl ariannu cynllun sy'n tybio y darperir ar gyfer buddiant marwolaeth mewn swydd o ddwy-waith y cyflog. Mae buddiant marwolaeth mewn swydd yn gymharol hawdd i'w amcangyfrif.

62. Mae'r tabl yn dangos y gost o ddarparu pensiwn yn defnyddio cyfuniadau o dybiaethau am:

- Y gyfradd gronni - 1/40, 1/50 a 1/60;
- Pensiwn priod/cymar yn ôl cyfradd o 3/8 neu 5/8 o bensiwn yr Aelod Cynulliad ymadawedig; ac
- Y gyfradd a ddefnyddir i ailbrisio Enillion Cyfartalog Gyrfa – nail ai CPI neu CPI+1

63. Dangosir cyfanswm cost y pensiwn fel canran o gyflog aelod o'r cynllun, ynghyd â rhannu'r cyfanswm rhwng y trethdalwr ac aelod o'r cynllun. Mae hyn yn seiliedig ar dybio bod y rhaniad yn 60%/40%.

64. Fel y soniwyd, dangosol yw'r ffigurau a gyflwynir isod, a gallent fod yn wahanol i'r hyn a gyflwynir yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yn dibynnu ar ddyluniad terfynol y cynllun ac amrywiaethau eraill. Diben y tabl yw dangos cost bosibl gwahanol gyfuniadau o fuddiannau.

65. Gobeithio y bydd darparu'r wybodaeth hon yn cynorthwyo'r rhai sy'n ymateb i'n ymgynghoraid i ddarparu ymatebion gwybodus i'r cwestiynau a gaiff eu hateb yn

rhannau cyntaf yr ymgynghoriad. Mae modelau dangosol o'r buddiannau a gaiff eu cynnig gan wahanol fathau o gynlluniau pensiwn ar gael yn ein hymgynghoriad cyntaf ar y mater hwn.[6]

66. Mae'r holl ffigurau isod yn cynnwys costau darparu buddiannau marwolaeth mewn swydd o ddwy-waith y cyflog. Cyfanswm costau posibl y buddiannau hyn yw £0.5% o gyflog. Mae'n bosibl amcangyfrif effaith y gost o newid y lluosydd cyflog a ddarperir fel marwolaeth mewn swydd drwy ychwanegu neu dynnu 0.25% o gyfanswm y gost ar gyfer lluosi cyflog bob tro.

67. Mae tabl 3 isod yn crynhoi'r cyfraddau cronedig ac ailbrisio arfaethedig a fabwysiadwyd gan rai o brif sefydliadau'r sector cyhoeddus am eu cynlluniau ailbrisio enillion a gyflwynir o fis Ebrill 2015.

[6] *Adolygiad o Bensiynau Aelodau'r Cynulliad Materion a Dewisiadau, Medi 2012*
http://www.assemblywales.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-allow-pay-pensions/remuneration_board.htm

### Tabl 2: Modelu actiwaraidd dangosol o gostau opsiynau'r dyfodol ar gyfer Cynllun Pensiynau Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| | | | Cost | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Yn tybio rhaniad o 60/40 | | | | | |
| | | | Ailbrisio ar CPI | | | Ailbrisio enillion ar CPI+1% | | |
| Cyfradd cronni | Pensiwn y sawl sy'n goroesi | Marw-olaeth mewn swydd | Cyfanswm | Aelod | Trethdal-wr | Cyfanswm | Aelod | Trethdalwr |
| 1/40 | 3/8 | 2x | 30.4% | 12.2% | 18.3% | 33.5% | 13.4% | 20.1% |
| 1/50 | 3/8 | 2x | 25.2% | 10.1% | 15.1% | 27.7% | 11.1% | 16.6% |
| 1/60 | 3/8 | 2x | 21.7% | 8.7% | 13.0% | 23.8% | 9.5% | 14.3% |
| | | | | | | | | |
| 1/40 | 5/8 | 2x | 31.9% | 12.8% | 19.1% | 35.1% | 14.0% | 21.1% |
| 1/50 | 5/8 | 2x | 26.4% | 10.5% | 15.8% | 29.0% | 11.6% | 17.4% |
| 1/60 | 5/8 | 2x | 22.7% | 9.1% | 13.6% | 24.8% | 9.9% | 14.9% |

Esboniad o'r colofnau:

- Cyfradd cronni yw'r gyfran o gyflog a gronnwyd fel pensiwn bob blwyddyn (Adran B);
- Defnyddir cyfradd ailbrisio (y colofnau canol a'r ochr dde) i gynyddu gwerth bob blwydd y pensiwn a gronnir tan ymddeoliad (Adran B);
- Pensiw y sawl sy'n goroesi y'r ffracsiwn o bensiwn blynyddol a fyddai wedi'i dalu i briod, partner neu ddibynnydd arôl i aelod dalu (Adran F);
- Mae'r gost o ddarparu buddiannau marwolaeth mewn swydd o ddwywaith y cyflog wedi'i chynnwys yn yr holl ffigurau. Cyfanswm costau'r buddiant hwn yw tua 0.5% o'r cyflog (Adran E);
- Mae'r gost o fuddiannau "grandfathering" ar gyfer aelodau sydd o fewn pum mlyneddd i oedran ymddeol arferol ar 1 Mai 2016 wedi'i gynnwys am gyfnod tan ddiwedd y Pumed Cynulliad neu 31 Ebrill 2021, gyda'r gos yn cael ei rhannu ar draws cyfraniadau Aelodau'r Cynulliad a'r Comisiwn (Adran G);
- Mae'r ffigurau uchod yn cynnwys costau o 1% ar gyfer treuliau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r cynllun.

Esboniad o'r data:

- Mae hanner uchaf a hanner isaf y tabl yn dangos effeithiau newid pensiwn y sawl sy'n goroesi. Mae pensiwn o3/8 o'r pensiwn blynyddol i'r sawl sy'n goroesi yn llai costus;
- Wrth i'r gyfradd gronni godi o 1/60 i 1/40 (colofn gyntaf) mae cyfanswm y gost yn codi;
- Wrth i'r gyfradd ailbrisio godi o CPI i CPI+1 (y golofn gyntaf a'r golofn ar y dde), mae'r cyfanswm yn cynyddu;
- Y dewis drytaf yw cyfradd gronni o 1/40, pensiwn y sawl sy'n goroesi o 5/8 a chyfradd ailbrisioso o CPI+1% Cyfanswm y gost fyddai 35.1%;
- Y dewis lleiaf costus yw cyfradd gronni o 1/60, pensiwn o 3/8 o'r sawl sy'n goroesi a chyfradd ailwerthuso o SPI. Cyfanswm y gost fyddai 21.7%.

**Tabl 3 Cyfraddau croniadau ac ailbrisio arfaethedig ar gyfer prif gynlluniau ailbriso yn y sector cyhoeddus o fis Ebrill 2015**

| Sefydliad | Cyfradd groniadau | Cyfraniad cyfartalog y cyflogai | Cyfraniad y cyflogwr | Cyfradd ailbrisio weithredol yr aelodau | Cyfradd ailbrisio wedi'i gohirio yr aelodau | Oedran pensiwn arferol | Marwolaeth mewn swydd | Pensiwn priod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Aelodau Seneddol San Steffan** | 1/51 y fl | 46% o gost y cynllun (amcangyfrif 10.53%) | 54% o gost y cynllun (amcangyfrif 12.37%) | mynegai prisiau defnyddwyr | mynegai prisiau defnyddwyr | oedran pensiwn y wladwriaeth | 2 x cyflog pensiynadwy | 3/8 o'r pensiwn blynyddol |
| **GIG** | 1/54 y fl | 9.8% (cyfraniadau haenog) | | mynegai prisiau defnyddwyr + 1.5% y fl | mynegai prisiau defnyddwyr | oedran pensiwn y wladwriaeth | 2 x cyflog pensiynadwy | 1/160 (tua 33.75%) o'r cyflog terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth gweithredol yr aelod |
| **Gwasanaeth sifil** | 1/43.1 y fl | 5.6% (cyfraniadau haenog) | | mynegai prisiau defnyddwyr | mynegai prisiau defnyddwyr | oedran pensiwn y wladwriaeth | 2 x cyflog pensiynadwy | 3/8 o'r pensiwn blynyddol |
| **Athrawon (y Cynllun Pensiynau Athrawon)** | 1/54 y fl | 9.6% (gyda threfniadau diogelu i'r rhai ar gyflogau is) | | mynegai prisiau defnyddwyr + 1.6% y fl | mynegai prisiau defnyddwyr | oedran pensiwn y wladwriaeth | 3 x cyflog cyfwerth ag amser llawn | 50% o'r pensiwn blynyddol |

| Sefydliad | Cyfradd groniadau | Cyfraniad cyfartalog y cyflogai | Cyfraniad y cyflogwr | Cyfradd ailbrisio weithredol yr aelodau | Cyfradd ailbrisio wedi'i gohirio yr aelodau | Oedran pensiwn arferol | Marwolaeth mewn swydd | Pensiwn priod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr heddlu**[7] | 1/55.3 y fl | 13.7% (cyfraniadau haenog) | | mynegai prisiau defnyddwyr + 1.25% y fl | mynegai prisiau defnyddwyr | 60. Mae'r oedran pensiwn wedi'i ohirio wedi'i gysylltu ag oedran pensiwn y wladwriaeth | 3 x cyflog pensiynadwy | 50% o'r pensiwn blynyddol |
| **Y Lluoedd Arfog**[8] | 1/47 y fl | Dim | | Enillion cyfartalog | mynegai prisiau defnyddwyr | 60. Mae'r oedran pensiwn wedi'i ohirio wedi'i gysylltu ag oedran pensiwn y wladwriaeth | 4 x y cyflog pensiynadwy | 62.5% o'r pensiwn blynyddol |

[7] *Mae gan yr heddlu drefniadau cymhleth ar gyfer ymddeol yn gynnar a darpariaethau ar gyfer cyfandaliadau ychwanegol pan fydd aelod o staff yn ymddeol/sy'n destun yr amodau ar gyfer ymddeol yn gynnar*

[8] *Mae gan y lluoedd arfog system daliadau gymhleth iawn ar gyfer ymddeol yn gynnar/ymadael yn gynnar (incwm ynghyd â chyfandaliad) yn dibynnu ar y cyfnod o wasanaeth fel iawndal am yrfaoedd byr y rhan fwyaf o'r rhai sy'n gwasanaethu*

## Atodiad A: Crynodeb o'r ymatebion i'n hymgynghoriad cyntaf

Cynhaliwyd ein hymgynghoriad cyhoeddus cyntaf ar bensiynau i Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol rhwng mis Medi 2012 a mis Ionawr 2013.[9] Cawsom ddau ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad hwnnw ac rydym wedi ystyried y rhain yn ystod ein hadolygiad. Caiff y rhain eu crynhoi isod.

- Ni ddylid cyflwyno neiwdiadau tan ddechrau tymor y Cynulliad nesaf gan y gallai hyn gael effaith ar yr Aelodau hynny o'r Cynulliad sy'n ystyried rhoi'r gorau iddi yn 2016.
- Dylai'r cyswllt cyflog terfynol o dan y strwythur buddiannau presennol gael ei gynnal ar gyfer aelodau'r cynllun presennol nes y maent yn gadael y Cynulliad, yn hytrach na hyd at unrhyw ddyddiad newid strwythur y buddiannau presennol.
- Yn unol â chanfyddiadau adolygiad Hutton, dylid diystyrru'r opsiwn balans arian parod gan ei fod yn trosglwyddo gormod o risg i aelodau'r cynllun.
- Dylai'r cyfleuster presennol sy'n caniatau trosglwyddo i mewn a phrynu blynyddoedd ychwanegol gael ei ddileu o dan unrhyw strwythur buddiannau newydd gan fod y rhain yn ychwanegu at y risg ariannu posibl.
- Ni ddylai newidiadau effeithio ar hawliau a gronnwyd.
- Dylai'r aelodau hynny o'r cynllun sydd o fewn 10 mlynedd i Oedran Ymddeol Arferol y Cynllun fod yn destun trefniadau "grandfathering" pan fabwysiedir y cynllun newydd.
- Dylid ystyried a ddylai unrhyw gynllun newydd gynnwys pŵer diwygio penodol, yn hytrach na dibynnu ar bwerau diwygio o dan Ddeddf Llywodraeh Cymru 2006, sy'n nodi pwy fyddai'n gyfrifol am wneud y newidiadau i'r cynllun a'r weithdrefn ar gyfer gwneud y newidiadau hynny.
- Dylai Rheol 80 bresennol y cynllun gael ei chau, gan fod hyn yn darparu buddiannau gwahaniaethu ar sail oedran i aelodau hŷn os ydynt yn ymddeol yn gynnar. Dylid ei gwneud yn ofynnol i aelodau o'r cynllun sy'n parhau â'r hawl hwn ymddeol yn gynnal ar sail a ostyngir yn actiwaraidd, fel pob aelod arall ers 2006/07.
- Dylai unrhyw newidiadau i'r strwythur buddiannau fod yn destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel bod holl aelodau'r cynllun, pensiynwyr, buddiolwyr a darpar aelodau'r cynllun yn cael eu trin yn deg. Ni ddylai'r rhai sy'n ymuno yn fuan wneud yn sylweddol well na'r rhai sy'n ymuno pan fydd y cynllun yn aeddfedu.
- Galwodd un ymatebwr ar i'r gyfradd gronni bresennol o 1/40 gael ei chynnal, yn ogystal â chyfradd gyfraniadau Aelodau'r Cynulliad o 10% o'u cyflog.
- Dylid ystyried costau gweinyddu'r cynllun yn ogystal â'r posibilrwydd o'i uno â chynlluniau tebyg eraill.
- O gofio maint bychan y cynllun, dylai'r Bwrdd archwilio'r posibilrwydd o yswirio'r cynllun yn erbyn llawer o farwolaethau.

[9] *Adolygiad o Bensiynau Aelodau'r Cynulliad – Materion a Dewisiadau Medi 2012* *http://www.assemblywales.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-allow-pay-pensions/remuneration_board.htm*

## Atodiad B Cyfanswm taliadau a'r trefniadau pensiwn presennol

Ar hyn o bryd, mae pensiynau yn werth 19% o gyfanswm taliadau'r Aelodau (cyfanswm cyflog sylfaenol a phensiwn). Mae'r cynllun presennol yn costio 23.8% o'r gyflogres ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.[10]

Mae cynllun pensiwn cyflog terfynol ar gael i Aelodau'r Cynulliad ar hyn o bryd. Mae Tabl 1 yn dangos manteision cynllun pensiwn presennol Aelodau'r Cynulliad. Cynllun ailbrisio enillion yw'r cynllun presennol ar gyfer deiliaid swyddi[11] sy'n cael y cyflog ychwanegol (yn ychwanegol at gyflog sylfaenol fel Aelodau'r Cynulliad, sef £53,852 ar hyn o bryd).

### Prif nodweddion cynllun pensiwn presennol Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru[12]

| Prif nodweddion | |
|---|---|
| Oedran ymddeol arferol | 65 |
| Cyfradd groniadau | 1/50 neu 1/40[13] |
| Sail y pensiwn | Cyflog terfynol[14] |
| Cyfandaliad | Drwy gymudo |
| Cyfradd gyfraniadau safonol | 34.3%[15] |
| Cyfraniad yr Aelod | 10% am gyfran o 1/40<br>6% am gyfran o 1/50 |
| Cyfraniad y 'cyflogwr' | 23.8% |
| Cyfle i'r Aelod brynu pensiwn ychwanegol | Drwy gyfraniadau gwirfoddol ychwanegol |
| Pensiwn priod neu bartner sy'n goroesi | 5/8 o bensiwn yr aelod |
| Marwolaeth mewn swydd | Pedair gwaith y cyflog pensiynadwy |
| Credydau cyfraniadau deiliaid swyddi | Cyfrifir ar sail ailbrisio enillion ar gyfradd croniadau o 1/40 neu 1/50 |

*[10] Roedd prisiad cynllun pensiwn mis Ebrill 2011 yn argymell lleihau cyfraniad y Comisiwn i 22.6% o'r gyflogres er mwyn caniatau ar gyfer gwarged yn y cynllun, Fodd bynnag, penderfynoll yr ymddiriedolwyr gynnal cyfradd cyfraniad presennol y cyflogwr er mwyn caniatau ar gyfer amrywiadau yn y dyfodol.*

*[11] Llywyddion, Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion, Dirprwy Weinidogion, Arweinwyr y Pleidiau, Cadeiryddion Pwyllgorau, Comisiynwyr y Cynulliad, Rheolwyr Busnes*

*[12] Cynllun Penswin Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru http://www.assemblywales.org/memhome/pay-expenses-financial-interests-standards/mem-allow-pay-pensions/mem-pay.htm*

*[13] Mae 57 o aelodau 'r cynllun wedi dewis cronni eu buddiannau ar gyfradd o 1/40*

*[14] Yn y fersiwn Saesneg o reolau'r cynllun, cyfeirir at gyflog terfynol, neu 'Final Salary', fel 'Terminal Salary'.*

*[15] Y gyfradd cyfraniadau safonol yw cyfradd y cyfraniadau y byddai angen eu talu er mwyn bodloni costau buddiannau pensiynau a gronnir dros gyfnod penodol, pe na bai gwarged na diffyg yn y cynllun.*

## Atodiad C: Beth yw cynllun ailbrisio enillion cyfartalog gyrfa (CARE)?

Mewn cynllun ailbrisio enillion cyfartalog gyrfa (cynllun ailbrisio enillion) caiff y pensiwn a roddir ar adeg pan fo Aelod yn ymddeol ei ddiffinio yn unol â rheolau'r cynllun. Unwaith i'r taliadau pensiwn ddechrau, bydd swm y pensiwn wedi'i warantu.

Mewn cynllun pensiwn cyflog terfynol, fel cynllun pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae'r pensiwn sy'n daladwy yn seiliedig ar nifer y blynyddoedd o wasanaeth a chyflog terfynol yr Aelod pan fo'n ymddeol. Mae hynny'n golygu, o dan y trefniadau presennol, bod y pensiwn y mae'r Aelodau yn ei gael pan fyddant yn ymddeol yn cael ei fynegi fel ffracsiwn o'r cyflog terfynol. O dan y cynllun ailbrisio enillion, byddai'r pensiwn sy'n daladwy yn cael ei fynegi, yn hytrach, fel ffracsiwn o'r cyflog yn ystod pob blwyddyn o wasanaeth, wedi'i ailbrisio yn unol â mynegai. Gellir ailbrisio'r enillion o flynyddoedd cynharach hyd at yr adeg ymddeol mewn sawl ffordd, er enghraifft, yn unol â chwyddiant prisiau (mynegai prisiau defnyddwyr neu'r mynegai prisiau manwerthu), neu yn unol ag enillion cyfartalog cenedlaethol.

Mae cynlluniau ailbrisio enillion yn rhoi mwy o sicrwydd i gyflogwyr ynghylch costau yn y dyfodol gan nad oes angen iddynt aros tan ddiwedd gyrfa'r Aelod i gyfrifo'r swm y bydd ei bensiwn cyfan yn seiliedig arno.

Mae cost gyffredinol cynlluniau ailbrisio enillion yn dibynnu ar y cydbwysedd rhwng:

- y gyfradd groniadau;
- y lefel a ddefnyddir i fynegeio neu ailbrisio buddiannau ar ôl iddynt gael eu hennill; a
- yr oedran pensiwn arferol.

Bydd unigolion gwahanol yn cael budd o gynlluniau gwahanol. Er enghraifft, byddai cynllun â chyfradd groniadau fwy hael a lefel is o fynegeio yn fwy buddiol i'r rhai sy'n nes at ymddeol ar draul y rhai sydd ymhellach i ffwrdd o ymddeol.

Gellir ailbrisio enillion hyd at yr adeg ymddeol mewn sawl ffordd. Mae'r dulliau ailbrisio mwyaf cyffredin ar gyfer aelodau gweithredol o gynllun pensiwn yn gwneud hynny'n unol â chwyddiant (fel y newidiadau arfaethedig i gynlluniau'r Gwasanaeth Sifil a'r GIG o 2015 ymlaen) neu'n unol ag enillion cyfartalog cenedlaethol (fel y newidiadau arfaethedig i gynlluniau'r lluoedd arfog).

Pe bai cynllun ailbrisio enillion yn cael ei gyflwyno, byddai'r Comisiwn yn dal yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r risg, ac eithrio'r risg cyflog, ond byddai'r cynllun yn adlewyrchu'r newidiadau a wneir i bensiynau'r sector cyhoeddus yn gyffredinol. Byddai lefelau cymharol y mynegeion a ddewiswyd ar gyfer uwchraddio buddiannau a chyfradd twf cyflogau'r Aelodau yn effeithio ar gost y cynllun. Gan fod y trefniadau pensiwn ar gyfer deiliaid swyddi yn seiliedig ar gynllun ailbrisio enillion eisoes; gallai cyflwyno cynllun ailbrisio enillion i bawb symleiddio pethau. Mae rhagor o wybodaeth am sut y mae cynlluniau ailbrisio enillion yn gweithio ar gael yma: http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130129110402/http://www.hm-treasury.gov.uk/d/hutton_how_care_works100311.pdf

## Atodiad D: Cynigion ar gyfer Aelodau etholedig mewn deddfwrfeydd eraill

Fel Bwrdd annibynnol, nid yw'n ofynnol inni ddilyn cyfeiriad a bennir gan gyrff adolygu neu gyrff taliadau eraill. Serch hynny, nid ni yw'r unig gorff taliadau sy'n gwneud newidiadau i drefniadau pensiwn cynrychiolwyr etholedig. Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddodd yr Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol ei gynigion ar gyfer trefniadau pensiwn Aelodau Seneddol yn y dyfodol. Dyma brif nodweddion y cynllun arfaethedig:

- Cynllun buddiannau wedi'u diffinio, yn seiliedig ar ailbrisio enillion cyfartalog gyrfa.
- Yn seiliedig ar gyfanswm cost o 22.9% o'r gyflogres (o gymharu â 32.4% bellach).
- Bydd Aelodau Seneddol yn talu 46% o gyfanswm costau'r cynllun, a'r trethdalwyr yn talu 54%, gyda threfniadau terfyn uchaf a therfyn isaf i sicrhau sefydlogrwydd o ran cyfraddau cyfraniadau ac i ddiogelu trethdalwyr rhag cynnydd sylweddol mewn costau. Felly, cyfraniadau'r Aelodau fydd 10% o'u cyflog a bydd y trethdalwr yn talu 12.4% o gyflog i'r gronfa bensiwn.
- Oedran ymddeol yr un peth ag oedran pensiwn y wladwriaeth neu 65 oed, pa un bynnag yw'r uchaf.
- Cyfradd croniadau o 1/51 o'r cyflog pensiynadwy bob blwyddyn.
- Cyfradd ailbrisio yn unol â'r cynnydd yn y mynegai prisiau defnyddwyr.
- Marwolaeth mewn swydd i fod yn 2-waith y cyflog (4-gwaith ar hyn o bryd) a buddiannau pensiwn y sawl sy'n goroesi i fod yn 3/8 o bensiynau aelodau (5/8 ar hyn o bryd). Trefniadau diogelu trosiannol i Aelodau Seneddol sydd o fewn 10 mlynedd o oedran ymddeol ar 1 Ebrill 2013.
- Mae rhywfaint o ddiogelwch ar gael i Aelodau Seneddol sydd rhwng 10 a 13.5 mlynedd i oedran ymddeol.

Mae'r panel annibynnol sy'n pennu taliadau a lwfansau ar gyfer Aelodau o'r Cynulliad Deddfwriaethol yng Ngogledd Iwerddon hefyd yn cynnal adolygiad tebyg. Cyhoeddwyd ei ymgynghoriad ym mis Chwefror 2014 ac mae'n bwriadu gwneud newidiadau i'r cynllun presennol fel bod yr Aelodau a etholir i'r Cynulliad nesaf yn ymuno â chynllun sy'n unol â'r newidiadau sy'n cael eu gwneud i gynlluniau eraill yn y gwasanaeth cyhoeddus.16

Adolygwyd y cynllun pensiwn ar gyfer Aelodau o Senedd yr Alban gan Senedd yr Alban yn 2009 – cyn cyhoeddi Adroddiad Hutton. Nid oes unrhyw adolygiad pellach yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

[16] *Panel Adolygu Ariannol Annibynnol Cynulliad Gogledd Iwerddon: Consultation on Assembly Members' Pension Scheme, Chwefror 2014*